

# Athro Daearyddiaeth

## Cyflwyniad

Mae athrawon daearyddiaeth ysgolion uwchradd yn datblygu gallu myfyrwyr i ddeall tirweddau, pobl ac amgylcheddau'r Ddaear. Maen nhw'n cynllunio gwersi diddorol ac amrywiol, gan ddefnyddio adnoddau fel delweddau lloeren, mapiau a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol. Maen nhw'n marcio gwaith, yn ysgrifennu adroddiadau ac yn mynd i gyfarfodydd a nosweithiau rhieni. Maen nhw hefyd yn cynllunio ac arwain teithiau maes.



## Adwaenir hefyd fel

- Athro, Daearyddiaeth

## Gweithgareddau Gwaith

Mae athrawon daearyddiaeth yn ysbrydoli myfyrwyr gydag ymdeimlad o bwysigrwydd y pwnc i ddeall y byd o'n cwmpas.

Maen nhw'n addysgu daearyddiaeth ddynol, sy'n canolbwyntio ar gymdeithasau, diwylliannau ac economïau, a daearyddiaeth ffisegol, sy'n esbonio sut mae tirweddau'n cael eu ffurfio a phrosesau naturiol yr hinsawdd a'r amgylchedd. Ond, maen nhw hefyd yn annog myfyrwyr i weld sut mae'r ddau beth yn gysylltiedig, er enghraifft, y cysylltiad rhwng defnyddio adnoddau a newid yn yr hinsawdd, a sut y gall gweithgarwch dynol gynyddu perygl llifogydd.

Mae athrawon daearyddiaeth yn helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau i ymchwilio i faterion pwysig a ffurfio barn amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys y pwysau sy'n wynebu ein hamgylcheddau naturiol, y bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd mewn gwledydd sy'n datblygu, a'r dadleuon o blaid ac yn erbyn ffynonellau ynni amgen. Mae athrawon yn trefnu trafodaethau, dadleuon ac ymarferion chwarae rôl i archwilio'r themâu hyn.

Mae'n rhaid iddyn nhw gynllunio a pharatoi gwersi diddorol ac amrywiol. Yn dibynnu ar y pwnc, gallai'r rhain gynnwys gwefannau, delweddau lloeren a samplau cerrig. Mae athrawon daearyddiaeth yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau map, yn ogystal â'r gallu i ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS). Er enghraifft, gallai myfyrwyr ddefnyddio delweddau lloeren i asesu effaith chwarela, a GIS i ragweld ac olrhain corwyntoedd.

Mae athrawon daearyddiaeth yn cynllunio, trefnu ac arwain teithiau maes, er enghraifft, i fesur erydiad arfordirol neu archwilio defnydd tir ac ardaloedd difreintiedig mewn dinas.

Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys:

- marcio gwaith myfyrwyr
- paratoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau
- mynd i gyfarfodydd staff a nosweithiau rhieni.

Mae rhai athrawon daearyddiaeth yn diwtoriaid dosbarth hefyd, sy'n golygu bod ganddyn nhw ddyletswyddau fel galw'r gofrestr a chadw cofnodion presenoldeb, trosglwyddo gwybodaeth gyffredinol a rhoi arweiniad.

Mae'n bosibl y bydd athrawon daearyddiaeth yn goruchwyllo un neu fwy o gynorthwywyr addysgu.

## Rhinweddau Personol a Sgiliau

I fod yn athro daearyddiaeth, bydd arnoch angen:

- brwdfrydedd, a'r gallu i ysbrydoli, annog ac ysgogi
- sgiliau cyfathrebu rhagorol

- dychymyg, i baratoi adnoddau diddorol
- y gallu i gynnal disgyblaeth a delio ag ymddygiad heriol
- tact, amynedd a sensitifrwydd
- parodrwydd i gadw eich gwybodaeth am y pwnc yn gyfredol
- sgiliau trefnu a chynllunio.

## Cyflog a Chyfleoedd

### Cyflog

Mae athrawon yn y sector addysg wladol yn cael eu talu ar raddfa yn unol â'u cymwysterau, profiad a chyfrifoldebau. Mae'r cyflogau uchaf ar gael mewn ysgolion yng nghanol Llundain.

Mae'r cyfraddau cyflog (fesul blwyddyn) sy'n cael eu rhoi isod yn rhai bras.

- Mae athrawon heb gymhwyso [nad ydyn nhw wedi derbyn Statws Athro Cymwysedig eto] yn ennill tua £16,000 - £25,000.
- Mae athrawon cymwysedig yn ennill tua £21,500 - £31,500.
- Mae 'athrawon uwch-sgiliau' yn ennill tua £37,500 - £57,000.
- Mae 'athrawon rhagorol' yn ennill tua £39,500 - £52,000.

Mae cyflogau'n uwch yn y sector preifat yn gyffredinol, er eu bod weithiau'n gysylltiedig â graddfeydd cyflog y sector gwladol.

### Oriau gwaith

Mae athrawon fel arfer yn gweithio o 8:30 am neu 9 am tan 3:30 pm neu 4 pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ond, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gweithio oriau ychwanegol - yn marcio gwaith, paratoi gwersi a mynd i gyfarfodydd. Mae'n rhaid iddyn nhw weithio gyda'r nos ac ar y penwythnos yn aml i baratoi gwersi a marcio gwaith.

### Ble allwn i weithio?

Y cyflogwyr yw ysgolion gwladol a phreifat.

Mae cyfleoedd ar gael i addysgu mewn gwledydd eraill hefyd.

Mae rhai athrawon yn ychwanegu at eu hincwm trwy addysgu'n breifat, marcio arholiadau cenedlaethol neu ysgrifennu gwrslyfrau.

### Ble mae swyddi'n cael eu hysbysebu?

Mae swyddi'n cael eu hysbysebu gan awdurdodau lleol ac yn y wasg leol a chenedlaethol, gan gynnwys The Guardian a The Times Educational Supplement (TES). Ceir hysbysfyrddau swyddi hefyd, fel eTeach.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

### Llwybrau mynediad

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymuno â'r yrfa hon trwy gymhwyster addysgu ôl-raddedig sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig.

Mae'r rhan fwyaf o raddedigion yn gwneud TAR mewn daearyddiaeth. Mae'r cyrsiau hyn fel arfer yn para blwyddyn yn amser llawn. Bydd angen i chi wneud cais trwy Hyfforddiant Athrawon UCAS.

Mae'r cynllun School Direct ar gael hefyd sydd wedi'i seilio ar gyflogaeth: byddwch yn hyfforddi tra'ch bod chi'n gweithio mewn ysgol. Y disgwyl yw y byddech chi'n mynd ymlaen i weithio yn yr ysgol neu'r grwp o ysgolion lle y gwnaethoch chi hyfforddi, er nad oes gwarant o gael swydd ar ddiwedd eich hyfforddiant.

Fe allwch chi hefyd hyfforddi mewn ysgol ar ôl eich gradd trwy hyfforddiant cychwynnol i athrawon sy'n canolbwyntio ar ysgol (SCITT). Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu cyflwyno gan grwpiau o ysgolion a cholegau cyfagos, ac maen nhw'n aml yn ceisio bodloni anghenion addysgu lleol.

Mae Teach First yn elusen sy'n recriwtio a chynorthwyo graddedigion i addysgu mewn ysgolion heriol mewn nifer o ardaloedd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cymryd dwy flynedd i gwblhau'r rhaglen.

Mae angen i athrawon dan hyfforddiant basio profion Saesneg a mathemateg i gyflawni Statws Athro Cymwysedig.

### **Hyfforddiant**

Pan fyddan nhw wedi cael swydd, mae'n rhaid i athrawon newydd gymhwyso gwblhau cyfnod sefydlu sy'n para am dri thymor, fel arfer o fewn un flwyddyn ysgol.

### **Dilyniant**

Mae cyfleoedd ar gael i athrawon symud i faes hyfforddi athrawon, gwaith ymgynghorol, ymchwil addysgol neu arolygu ysgolion.

Gall athrawon ddod yn benaethiaid adran, yn benaethiaid blwyddyn, neu'n gydlynwyr anghenion addysgol arbennig neu gyfarwyddyd gyrfaoedd.

### **Adsefydlu Troseddwyr**

Mae'r yrfa hon wedi'i heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi roi gwybodaeth i gyflogwr am unrhyw euogfarnau, rhybuddion, ceryddau neu rybuddion sydd wedi darfod neu sydd heb ddarfod, os yw'n gofyn i chi.

Mae hyn yn wahanol i yrfaoedd eraill, lle mae'n rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth am euogfarnau sydd heb ddarfod yn unig os gofynnir i chi.

## **Cymwysterau**

Mae angen i bob ymgeisydd am hyfforddiant athrawon fod â chymwysterau TGAU (neu gymwysterau cyfwerth cydnabyddedig) ar radd C neu uwch mewn Iaith Saesneg a Mathemateg.

Os ydych chi am addysgu yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14 oed), mae'n rhaid i chi fod â TGAU (neu gymhwyster cyfwerth cydnabyddedig) ar radd C neu uwch mewn pwnc gwyddoniaeth.

Os nad oes gennych chi'r cymwysterau TGAU sydd eu hangen fel arfer, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu gwneud prawf cyfwerthedd cyn-mynediad; cysylltwch â darparwyr unigol i drafod eich sefyllfa cyn gwneud cais.

I gael lle ar gwrs TAR, fel arfer bydd arnoch angen gradd mewn daearyddiaeth neu bwnc cysylltiedig fel gwyddor amgylcheddol, gwyddorau'r Ddaear, Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol a chynllunio (mae rhai prifysgolion yn gofyn bod o leiaf 50% o'r cwrs yn cynnwys daearyddiaeth).

I gael lle ar gwrs gradd mewn daearyddiaeth, y gofynion arferol yw:

- 2/3 Safon Uwch, gan gynnwys Daearyddiaeth neu o leiaf un pwnc gwyddoniaeth
- cymwysterau TGAU ar raddau A\*-C yn eich pynciau Safon Uwch
- 2/3 TGAU arall gan gynnwys Saesneg a Mathemateg.

Mae dewisiadau eraill yn lle Safon Uwch yn cynnwys:

- Cymwysterau Cenedlaethol Edexcel (BTEC) lefel 3
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol.

Ond, mae gofynion cyrsiau yn amrywio, felly darllenwch brosbectysau yn ofalus.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gyfwerth ag un Safon Uwch.

## **Cyfleoedd i Oedolion**

## Sgiliau/profiad

I gael lle ar gyrsiau hyfforddi athrawon, fel arfer bydd angen i chi o leiaf fod wedi arsylwi rhai dosbarthiadau mewn ysgol uwchradd brif ffrwd. Ar gyfer rhai cyrsiau, bydd angen profiad gwaith taledig neu wirfoddol arnoch chi mewn ystafell ddosbarth uwchradd, neu brofiad perthnasol arall gyda phobl ifanc.

## Cyrsiau

Os nad oes gennych chi'r cymwysterau sydd eu hangen i gael lle ar gwrs gradd, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu dechrau un ar ôl cwblhau cwrs Mynediad coleg neu brifysgol, fel Mynediad i'r Dyniaethau neu Fynediad i Wyddoniaeth. Nid oes angen unrhyw gymwysterau arnoch chi fel arfer i ddilyn cwrs Mynediad, ond dylech gadarnhau hyn gyda darparwr y cwrs.

## Dysgu o bell

Mae rhai cyrsiau TAR ar gael ar sail dysgu hyblyg. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu hyfforddi trwy ddysgu o bell ar y cyd ag ymarfer addysgu mewn ystafell ddosbarth ac astudio ar y campws.

## Hyfforddiant

Yn lle mynd i'r brifysgol i wneud TAR, gall graddedigion ddilyn llwybr seiliedig ar gyflogaeth, sy'n golygu y byddwch chi'n hyfforddi mewn ysgol. Mae llwybrau seiliedig ar gyflogaeth yn cynnwys School Direct, hyfforddiant cychwynol athrawon sy'n canolbwyntio ar ysgol (SCITT) a'r cynllun sy'n cael ei gynnig gan Teach First. I gael rhagor o wybodaeth, gweler 'Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant'.

## Cyllid

Mae gwybodaeth am gyllid ar gael ar y wefan GOV.UK.

## Gwybodaeth Bellach

### Cysylltiadau

- **UCAS Teacher Training**  
Gwefan [www.ucas.com/how-it-all-works/teacher-training](http://www.ucas.com/how-it-all-works/teacher-training)
- **Teach First**  
Gwefan [www.teachfirst.org.uk](http://www.teachfirst.org.uk)
- **Department of Education Northern Ireland**  
Irish enquiries  
E-bost DE.DEWebMail@education-ni.gov.uk  
Gwefan [www.deni.gov.uk](http://www.deni.gov.uk)
- **General Teaching Council for Scotland (GTC Scotland)**  
Scottish enquiries  
E-bost gtcs@gtcs.org.uk  
Gwefan [www.gtcs.org.uk](http://www.gtcs.org.uk)
- **GOV.UK**  
UK government services and information  
Gwefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

## Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Nyrs Feithrin
- Aseswr NVQ
- Goruchwylydd Amser Cinio
- Athro Hanes
- Athro Ieithoedd Tramor Modern
- Cynorthwy-ydd Addysgu
- Athro Cerddoriaeth

- Athro Saesneg
- Athro Mathemateg
- Athro Gwyddoniaeth
- Swyddog Lles Addysg
- Gweithiwr Chwarae
- Athro Anghenion Addysgol Arbennig
- Athro Celf a Dylunio
- Athro Dylunio a Thechnoleg
- Athro Blynyddoedd Cynnar
- Athro Addysg Gorfforol
- Athro Cynradd
- Athro Uwchradd
- Rheolwr Hyfforddi
- Darlithydd Addysg Uwch
- Rheolwr Busnes Ysgolion
- Athro Saesneg fel Iaith Dramor
- Darlithydd
- Athro/Athrawes
- Athro Cymraeg
- Cynorthwydd Meithrin
- Pennaeth